

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **14 Mai 2018** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-05/18: Presennol

Cadeirydd : Cyng Sian Williams

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng Henry Jones; Cyng Elizabeth Reagan; Cyng. Robert T Price; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Eirwyn Williams; Cyng Wayne Roberts
Clerc – Dr Catrin Jones.

2-05/18 Ymddiheuriadau:

Cyng. Elizabeth George; Cyng. Dr E Tudor Jones;

3-05/18: Datgan diddordeb

Ni wnaeth neb datgan diddordeb.

4-05/18: Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor Tref

a. Ethol Cadeirydd 2018/19

Etholwyd y Cyng. Elizabeth George yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2018/19 -ar sail ei bod yn arwyddo derbyniad swydd cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor ym mis Mehefin.

Diolchwyd i'r Cyng. Sian Williams am ei gwaith clodwiw yn Gadeirydd y Cyngor ac mi nododd ei diolch i'r Cynghorwyr a'r Clerc am eu cefnogaeth yn ystod ei thymor yn Gadeirydd.

Cytunwyd bod y Cyng. Sian Williams yn dal i gadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Cyng. Elizabeth George.

b. Ethol Is-gadeirydd 2018/19

Etholwyd y Cyng. Sian Williams yn Is-gadeirydd ar gyfer 2018/19. Derbyniwyd ffurflen derbyn swydd wedi'i lofnodi ar gyfer 2018/19

Penderfyniad: y dylai'r Is-gadeirydd ar gyfer 2018/19 gadeirio'r cyfarfod.

c. Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog

Yn unfrydol mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog fel sail ar gyfer 2018-19. Bydd y Rheolau Sefydlog yn cael eu cyhoeddi ar safle We'r Cyngor:

Nodwyd wrth dderbyn y rheolau sefydlog newydd:

- cytunwyd i newid cyfarfodydd cyffredin y Cyngor i'r ail nos Fawrth yn y mis yn lle nos Lun oni bydd angen newid dyddiad yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- O dan 17.1 - Cyfrifon a Datganiadau Ariannol, ychwanegu "*heblaw am os oes angen taliad brys o gyfrif rhwng cyfarfodydd, rhoddir hawl i'r Cadeirydd neu Is-gadeirydd benderfynu os bydd cyfrif yn cael ei dalu ac i'r siec gael ei arwyddo gan y Cadeirydd, Is-gadeirydd a dau aelod arall o'r Cyngor*"

d. Mabwysiadu'r Rheolau Ariannol

Yn unfrydol mabwysiadwyd y Rheolau Ariannol fel sail ar gyfer 2018-19. . Bydd y Rheolau Ariannol yn cael eu cyhoeddi ar safle We'r Cyngor.

e. Adolygu stocrestr o asedau'r Cyngor

Derbyniwyd stocrestr o asedau'r Cyngor a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau gan y Clerc ar gyfer 2018/19. Yn unfrydol cadarnhawyd y stocrestr yn un cywir.

f. Cadarnhau Asesiad Risg y Cyngor

Derbyniwyd asesiad risg y Cyngor a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau gan y Clerc ar gyfer 2018/19. Yn unfrydol derbyniwyd yr Asesiad Risg . Bydd yr Asesiad Risg yn cael ei gyhoeddi ar safle We'r Cyngor.

g. Cadarnhau gwarant yswiriant

Nodwyd bod angen adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor o 1 Mehefin ar gyfer 2018/19 . Bydd y polisi wedi'i warantu gan BHIB Ltd.

Penderfyniad: Cytunodd y Cyngor i dderbyn y polisi yswiriant gyda BHIB Ltd gan nodi bod y cwmni wedi cynnig gostyngiad mewn pris oherwydd bod y Cyngor wedi ymrwymo i dair blynedd gan y cwmni blaenorol yng nghyfarfod blynyddol llynedd.

h. Ethol aelodau'r is-bwyllgorau

Etholwyd yr aelodau isod i is-bwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2018/19

Penderfyniad: Derbyniwyd yr aelodaeth isod a chytunwyd i adolygu'r pwyllgorau a'r termau yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau is-bwyllgorau ffit i bwrpas:

i. Is –bwyllgor Cyllid

Cadeirydd, Is-gadeirydd, Robert T Price, Dr E Tudor Jones, Henry Jones, Robert Cadwalader

ii. Is-bwyllgor Cynllunio a Thrafnidiaeth

Cadeirydd, Is-gadeirydd, Wayne Roberts, Phil Jones, William A Evans, Dafydd Lloyd

iii. Is-bwyllgor Mwynderau

Cadeirydd, Is-gadeirydd, Henry Jones, William A Evans, Phil Jones, Eirwyn Williams

iv. Pwyllgor Grantiau

Holl aelodau'r Cyngor

v. Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth

Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Robert Cadwalader, Phil Jones, Eirwyn Williams

vi. Grŵp Llywio Cofio Cyfraniad Criccieth

Elizabeth George, Robert Cadwalader, Peter Harlech Jones (Neuadd Goffa), Ffion Gwyn (Rheolwr Prosiect, Coleg Meirion Dwyfor), Karena Owens (Ysgol Trefherthyr)

j. Ethol aelodau i gyrff allanol

Etholwyd yr aelodau isod i gyrff allanol ar gyfer 2018/19

i. Criccieth yn ei Blodau

Sian Williams a Dafydd Lloyd, Phil Jones fel eilydd pe bai'r cynrychiolwyr yn methu mynychu

- ii. Pwyllgor yr Heddlu
Henry Jones
- iii. Un Llais Cymru
Cadeirydd a'r Is-gadeirydd – Clerc fel eilydd pe bai'r cynrychiolwyr yn methu mynychu
- iv. Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Trefferthyr
Sian Williams
- v. Neuadd Goffa
Robert Cadwalader

- k. Pennu amser a lle cyfarfodydd cyffredin y Cyngor Llawn 2018-19 a chyfarfod blynyddol 2018:

Cytunwyd ar y dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfod cyffredin y Cyngor Llawn 2018-19 a chyfarfod blynyddol 2019, i'w cynnal am 7 yr hwyr yn Siambr y Cyngor Criccieth: nodi newid y cyfarfodydd i Nos Fawrth fel roedd wedi ei gytuno uchod yn y Rheoliadau Sefydlog:

12 Mehefin 2018	10 Gorffennaf 2018	11 Medi 2018
9 Hydref 2018	13 Tachwedd 2018	11 Rhagfyr 2018
8 Ionawr 2019	12 Chwefror 2019	12 Mawrth 2019
9 Ebrill 2019	14 Mai 2019 (Cyfarfod Blynyddol)	

5-05/18 Cadarnhau cofnodion mis Ebrill 2018

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

6-05/18 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

- a. Derbyniwyd gyda diolch gwahoddiad gan y Clwb Tennis i aelodau'r Cyngor a'r Clerc a'u partneriaid i fynychu agoriad swyddogol y Tŷ Clwb Newydd gan y Clwb Tennis am 2.00 o'r gloch, 17 Mehefin 2018- agoriad gan yr aelod Seneddol Liz Saville Roberts - bydd lluniaeth ar gael. Dylai aelodau'r Cyngor sydd am fynychu rhoi gwybod i'r Clerc yn y cyfarfod nesaf.

7-05/18: Gohebiaeth

- a. **Panel yr Adolygiad Annibynnol - Sesiwn Galw Heibio** - e-bost 27 Ebrill 2018

Roedd cais wedi dod ar 27 Ebrill gan y Panel i'r Cyngor agor ei ddrwsau dydd Iau 24 Mai i gasglu sylwadau gan y gymuned – roedd disgwyl ateb erbyn 8 Mai.

Penderfyniad: Doedd dim gan y Cyngor Tref yr adnodd na'r capasiti i drefnu digwyddiad o'r fath o fewn amser mor fyr ar ddiwrnod penodedig a osodwyd yn allanol - nodwyd bod y Cyngor yn gweithio gyda'r gymuned i greu'r Cynllun Cymunedol ac yn barod yn cynnal digwyddiadau ymgynghori ar ddyddiadau a oedd wedi eu trefnu yn ystod y flwyddyn . A fyddai modd i'r Panel drefnu ymgynghoriad ar lein?

- b. Un Llais Cymru Arweiniad Gwasanaethau Un Llais Cymru -e-bost 3 Mai 2018
Derbyniwyd papur yn crynhoi'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan Un Llais Cymru
Penderfyniad: derbyn y wybodaeth

- c. Comisiynydd y Gymraeg – Polisi Iaith
Nodi bod Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi templed polisi iaith ar gyfer
Cynghorau Cymuned a Thref sydd angen sylw gan y Cyngor Tref i benderfynu ar beth
sydd i'w fabwysiadu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Comisiynydd.

Penderfyniad: Trafod yn y cyfarfod nesaf

- d. Cyngor Gwynedd - Toriad Gwasanaeth Bws o Griccieth i Gaernarfon - e-bost 20 Ebrill
2018

Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu at Gyngor Gwynedd i fynegi consyrn am y toriad
yn y gwasanaeth uchod ac i dynnu sylw at y ffaith bod torri'r gwasanaeth yn
effeithio'n enwedig ar drigolion anghenus y gymuned gan gynnwys:

- Rhai sy'n dibynnu ar wasanaeth bws ar gyfer mynychu apwyntiadau ysbyty
- Henoed sy'n dymuno siopa tu allan i'r dref.

Nid oedd y gwasanaeth presennol yn diwallu anghenion rhan helaeth o'r
defnyddwyr, sydd angen teithio i drefi cyfagos ar fws arall cyn ymuno gyda'r
gwasanaeth i Gaernarfon.

Roedd yr ymateb gan swyddog Cyngor Gwynedd yn derbyn nad oedd yr hyn sydd yn
ei le yn bresennol yn ddatrysiaid tymor hir boddhaol ac yn awyddus iawn i sicrhau
fod datrysiaid cynaliadwy hirdymor yn cael ei roi yn ei le a oedd yn cwrdd ag
anghenion y cymunedau. Derbyniwyd llythyr hefyd gan Gyngor Llanystumdwy yn
gofyn am gefnogaeth ar gyfer ail-gyfodi'r gwasanaeth bws.

Penderfyniad: Cytuno nad oedd y gwasanaeth presennol yn dderbyniol ac y dylai'r
Cyngor Sir ddal i geisio sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei adfer. Yn y cyfamser,
cynnig bod y Cyngor Sir yn gweld os oes modd dargyfeirio'r gwasanaethau presennol
i gynnig bod rhywfaint o'r bysiau yn cyrraedd top Ty'n Rhos.

- e. Cymdeithas yr Iaith - Cynnig i'w ystyried re Clybiau Ieuenctid Gwynedd - e-bost 10
Ebrill 2018

Roedd cais wedi dod drwy law Swyddog Mae Cymdeithas yr Iaith i'r Cyngor ystyried
y cynnig isod:

“Mae'r Cyngor hwn, mewn egwyddor, yn fodlon trafod trefniadau newydd ar gyfer y
gwasanaeth ieuenctid, ar yr amod fod Cyngor Gwynedd yn cadw'r gwasanaeth fel y
mae am flwyddyn arall, i roi amser i gael y drafodaeth angenrheidiol.”

Penderfyniad: Derbyn y cynnig yn unfrydol.

- f. Gwynedd Ddigidol: Mynediad cyhoeddus i Wifi mewn cymunedau gwledig -e-bost 24 Ebrill 2018
Roedd Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i gael arian trwy Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig i ddatblygu prosiect Gwynedd Ddigidol: Mynediad cyhoeddus i Wifi mewn Cymunedau Gwledig. Roedd hwn yn gyfle gwych i ddarparu Wi-Fi am ddim i'r cyhoedd er budd unigolion a busnesau i ddarparu Wi-Fi. Byddai sesiwn wybodaeth yn y Ganolfan Porthmadog ar nos Fawrth 15 Mai 18.00-20.00 a'r Clerc yn mynychu. Nodwyd bod cefnogaeth i sefydlu Wi-Fi yn y dref yn y gweithdy a gynhaliwyd ar 28 Ebrill. Roedd angen cyflwyno cais erbyn 21 Mehefin - felly byddai amser i ystyried yn y cyfarfod nesaf!

Penderfyniad: Nodwyd bod y Clerc yn mynychu'r cyfarfod ac i drafod yn y cyfarfod nesaf.

- g. Criccieth yn ei Blodau – Tybiau Planhigion – e-bost 1 Mai 2018
Derbyniwyd gohebiaeth gan Criccieth in Bloom yn nodi ei bod yn hapus i gael "cladding" ail gylchu ar gyfer y tybiau planhigion ger y Pines ac yn erfyn ar Gyngor Gwynedd hefyd i dorri'r coed sy'n tyfu ynddynt.

Penderfyniad: Cytuno gyda'r cais – a'r Clerc i gadarnhau hyn gyda Chyngor Gwynedd.

8-05/18: Ceisiadau Cynllunio

- a. C18/0351/35/LL – Dymchwel estyniadau presennol, addasiadau allanol gan gynnwys newid ffenestri yn ogystal â chodi grisiau dianc allanol – Cambrian House, 8 Rhesdai Cambrian, Criccieth, LL52 0HE

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

- b. Ers y cyfarfod diwethaf – nodwyd bod 2 gais cynllunio wedi ei chylchredeg am sylwadau:

C18/0281/35/LL – Codi estyniad unllawr ar gefn yr eiddo, codi modurdy unllawr ar ochr yr eiddo ag ail leoli mynedfa gerbydol : Foel Friog, Muriau, Criccieth LL52 0RU

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad:

C18/0305/35/LL - Estyniadau ar flaen eiddo; Adre, Lon Ednyfed, Criccieth, LL52 0LD

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad:

9-05/18 Archwiliad Mewnol ac Allanol o Gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer 2017-18

- a. Archwiliad Mewnol

Nodwyd bod y cyfrifon wedi cael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad mewnol gan yr archwilydd a apwyntiwyd gan y Cyngor a bod adroddiad wedi'i dderbyn yn cadarnhau bod y cyfrifon mewn

trefn. Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor. Dengys yr adroddiad bod yr amcanion rheolaethol a brofwyd yn foddhaol.

Nodwyd barn yr archwiliad:

"Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraeth a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Tref Criccieth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhâi i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:

- *Methiant i adnabod trafodion unigol."*

Roedd yr archwiliwr yn diolch i'r Clerc am y cymorth a'r cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad.

Penderfyniad: Derbyniwyd yr adroddiad a nodwyd yr argymhelliad gan yr archwilydd mewnol y dylid ystyried addasu'r fantolen ar gyfer gwneud hi'n haws i adnabod y trafodion unigol. Nodwyd bod y trafodion unigol yn ymddangos yng nghofnodion y Cyngor Tref, ond bod trafodion a oedd o dan yr un pennawd gwariant ar y daenlen fisol yn cael eu recordio fel cyfanswm gwariant yn hytrach na'n unigol. Byddai recordio'r gwariant yn unigol yn gwneud hi'n haws i wirio'r ffigurau ar y daenlen. Roedd y Cyngor fodd bynnag yn hapus gyda sut roedd y daenlen wybodaeth yn cael ei gyflwyno iddynt ac y dylai'r Clerc drafod gyda'r archwilydd mewnol oes oedd wir angen gwneud y newidiadau yma i'r daenlen gan fod trafodion unigol yn cael ei hadrodd i'r Cyngor ym mhob cyfarfod. Diolchwyd i'r Clerc a'r archwilwyr mewnol am eu gwaith.

b. Archwiliad Allanol

Roedd yr archwilydd mewnol wedi cwblhau ac arwyddo'r adrannau perthnasol o'r ffurflen archwiliad allanol ar gyfer 2017/18 a oedd wedi ei gylchredeg i'r Cynghorwyr. Nodwyd y byddai'r Clerc yn trefnu bod yr hysbysiad yn ymddangos ar hysbysfwrdd y Cyngor a'r safle We am y cyfnod priodol a nodwyd gan yr Archwilwyr Allanol (BDO) er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd weld y cyfrifon. Roedd angen cyflwyno'r wybodaeth archwilio i'r BDO a'r dystiolaeth y gofynnwyd amdano erbyn 9 Gorffennaf 2018.

Penderfyniad: Cyflwynwyd y ffurflen allanol derfynol i'r Cyngor i'w harwyddo gan y Clerc a'r Cadeirydd.

10-05/18 Deddf Diogelu Data

Cafwyd diweddariad ar y GDPR gan y Clerc yn dilyn yr adroddiad yn y cyfarfod diwethaf:

- a. Tâl i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - o dan y ddeddfwriaeth newydd a fyddai'n dod i rym ar 25 Mai 2018 (GDPR) byddai angen i'r Cyngor Tref dalu ffi o £40 yn flynyddol - y ffi a osodir ar gyfer rheolwyr data a oedd a fyny at 10 aelod o staff (ar hyn o bryd roedd y Cyngor yn talu ffi o £35 i'r ICO). O dalu'r ffi drwy debit uniongyrchol byddai gostyngiad o £5 yn y ffi.

- b. Bod deddfwriaeth arbennig yn golygu na fyddai angen i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru a Lloegr i benodi Swyddog Diogelu Data. Roedd y Cyngor eisoes wedi penodi'r Clerc yn Swyddog Diogelu Data ac roedd wedi derbyn hyfforddiant.
- c. Roedd angen i'r Cyngor ystyried a mabwysiadau'r canlynol a oedd wedi cael eu drafftio a'u cylchredeg gan y Clerc i holl aelodau'r Cyngor cyn y cyfarfod:
 - (i) Cofrestr Asedau Gwybodaeth Cyngor Tref Criccieth
 - (ii) Polisi Diogelu Data a Gwybodaeth Cyngor Tref Criccieth
 - (iii) Datganiad Preifatrwydd Cyngor Tref Criccieth
 - (iv) Polisi Diogelwch Gwybodaeth Cyngor Tref Criccieth
 - (v) Polisi Cadw a Dileu Gwybodaeth Cyngor Tref Criccieth
 - (vi) Ffurflen Caniatâd Cysylltu
 - (vii) Ar gyfer prosesu ceisiadau rhyddhau gwybodaeth o dan y ddeddfwriaeth 'roedd angen i unigolion gyflwyno dwy dystiolaeth briodol er mwyn ei hadnabod a hefyd y dystiolaeth briodol os ydynt yn gwneud cais ar ran rhywun arall.

Penderfyniad: Ystyriwyd a derbyniwyd y wybodaeth (a) a (b) a mabwysiadwyd yr uchod c. (i) - (vii). Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

11-05/18 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth – cofnodion cyfarfod 4 Ebrill 2018

Cafwyd adroddiad ar lafar yn y cyfarfod diwethaf –roedd pob dim yn mynd yn ei flaen yn dda iawn gyda'r prosiect.

Penderfyniad: derbyniwyd y cofnodion

12-05/18: Cynllun Cymunedol Criccieth - diweddariad

Nodwyd bod y gweithdy cyntaf a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2018 wedi bod yn un hynod lwyddiannus – Roedd 41 wedi mynychu ac roedd yn gam sylweddol ymlaen i ddatblygu Cynllun Cymunedol ar gyfer Criccieth ac i flaenoriaethu syniadau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf . Braf oedd gweld pawb yn cydweithio a chyfrannu ar y diwrnod. Byddai nodiadau o'r gweithdy yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor. Roedd ail weithdy wrthi yn cael ei drefnu ar gyfer mis Mehefin.

13-05/18: Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Y Clerc wedi sgwennu eto at Gyngor Gwynedd - Dim byd i'w adrodd

Penderfyniad: Nodwyd bod hyn yn annerbyniol a chytunwyd i gysylltu gyda'r Cyngor i fynegi hyn ac i geisio eglurder ar y sefyllfa fel mater o frys.

14-05/18: Torri gwair yn y dref

Roedd Cyngor Gwynedd wedi addo danfon amserlen torri gwair i'r Clerc ac nid oedd amserlen wedi ei dderbyn – felly roedd wedi sgwennu i dynnu sylw at hyn. Cafwyd ymateb yn ymddiheuro am hyn a nodwyd bwriad y Cyngor i dorri a hel gwair yn yr ardal goch a piws ar y cynlluniau unwaith y mis ond gyda mewnbwn gan y Cyngor o ran digwyddiadau fel y ffair ac unrhyw ŵyl arall.

Penderfyniad: Gofyn i Gyngor Gwynedd amseru'r toriadau wythnos olaf bob mis, gan fod hyn yn cyd-fynd yn well gyda digwyddiadau a chyfnodau gwyliau yn well nag wythnos gyntaf pob mis.

15-05/18: Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

16-05/18 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd

17-05/18 Meinciau Tref Criccieth

Cais gan Criccieth yn ei Blodau ar gyfer talu treian o'r gost o roi mainc gofio'r 100 mlynedd ar safle'r Neuadd Goffa. :

Penderfyniad: Cytuno i gyfrannu treian o'r gost (sef treian o'r £1,000 amcangyfrif)

18-05/18: Derbyniadau

- a. Praesept, taliad cyntaf (Cyngor Gwynedd, 2018-19) £18,000.00

19-05/18: Taliadau

• Cyllid y Wlad/Ysw Cenedlaethol (PAYE)	Ebrill	£72.70(siec 101233)
• Cyflog y Clerc (Ebrill)		£660.18(siec101234)
• Dr Catrin Jones –(Cost prynu Cysgliad)		£20.00 (siec101235)
• Gwasg Cymru		£70.40 (siec101236)
• Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (sesiwn prosiect CCC)		£150.00 (siec 101237)
• Gwasanaeth Cyfieithu Ann Llwyd		£160.00 (siec 101238)
• Cymdeithion Sian Shakespear Associates		.£1075.00 (siec 101239)
• BHIB LTD (Yswiriant)		£1245.90(siec:101240)
• SLCC Enterprises Ltd (Cynhadledd 16 Mai)		£90.00 (siec 101241)
• Dylan's		£320.00 (siec: 101242)*
• Cyngor Gwynedd (Toiledau Cyhoeddus Criccieth)		£6000.00(siec 101243)**

*cywiriad i'r ffigwr o £328.00 a gyhoeddwyd yn y rhaglen ar gyfer y cyfarfod

**Ers cyhoeddi'r agenda 'roedd anfoneb o £6,000 wedi dod gan Gyngor Gwynedd ar gyfer cyfrannu at gostau cynnal y toiledau cyhoeddus yng Nghriccieth – cyflwynwyd i'w dalu yn y cyfarfod. Rhoddwyd caniatâd i'r clerck i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 12 Mehefin 2018.**

****Bydd y rhaglen yma yn cau 3 Mehefin 2018****